# Cofnodion cyfarfod rhif 83 Pwyllgor Cynghori Cymru a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams/rhai wyneb yn wyneb ar 22 Tachwedd 2021

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Hywel Wiliam | Y Cadeirydd |
| Robert Andrews | Aelod |
| Ruth McElroy | Aelod |
| Rem Noormohamed | Aelod (ymunodd yn eitem 4) |
| Tom Crick | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Aled Eirug | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Sian Phipps | Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau |
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Cymru, Ofcom |
| Elinor Williams | Pennaeth, Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 83 Pwyllgor Cynghori Cymru, gan gynnwys yr Athro Tom Crick a oedd yn bresennol yn ei gyfarfod cyntaf. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau cyn y cyfarfod. | |
| **Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>2. Mae Tom Crick yn aelod o Goleg Arbenigwyr yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2021-presennol). | |
| **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2021 a materion a godwyd – Cofnodion PCC rhif 82**<br><br>3. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2021 wedi cael eu dosbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. **CYMERADWYWYD** y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod heb ddiwygiadau.<br><br>**Materion a godwyd/Camau gweithredu heb eu cyflawni -**<br><br>• Mae'r ymweliad â **Sgwâr Canolog y BBC** yn parhau ar yr agenda, i'w drefnu pan fydd cyfyngiadau Covid yn caniatáu. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
| --- | --- |
| • **Ymchwil Newyddion Rhwydwaith** gan yr Athro Stephen Cushion – dadansoddi cynnwys yn parhau, a thîm Cymru yn trafod y broses cyhoeddi gyda chydweithwyr perthnasol.<br>• **Teledu lleol** – ar yr agenda<br>• Penodwyd **Julia Lopez** yn Weinidog Gwladol dros y Cyfryngau, Data a Seilwaith Digidol | |
| **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br><br>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys mynd i'r canlynol:<br><br>• **Hwb Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu Cymru -** Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar beth sy'n cael ei ystyried yn wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a sut gall darparwyr cyfathrebu sicrhau bod gofynion gwasanaeth defnyddwyr yn cael eu bodloni'n gyson, yn effeithlon ac yn effeithiol. Roedd y cyfarfod yn edrych ar sut gallai datblygu Siarter Cwsmeriaid ar draws y sector cyfathrebu helpu i reoli disgwyliadau defnyddwyr drwy ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn un lle.<br>• **Pwyllgor y Senedd -** Rhoddodd y Cadeirydd dystiolaeth ar ran PCC i ymchwiliad byr y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr Ofcom a'n hargymhellion i Lywodraeth y DU. Rhoddodd Ruth McElroy dystiolaeth hefyd ond yn rhinwedd ei swydd fel Athro Diwydiannau Creadigol a Phennaeth Cyfadran Ymchwil ym Mhrifysgol De Cymru. | |
| **Yr wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom - ar lafar**<br>5. Rhoddodd yr Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar yn y cyfarfod, ond tynnodd sylw at bwysigrwydd darparu adroddiad ysgrifenedig i'r aelodau yn ei farn ef. Cyfeiriodd at y canlynol yn ystod ei gyhoeddiad: -<br><br>• Cyhoeddwyd **Cytundeb Cydweithio** rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn ddiweddar sy'n cynnwys ymrwymiad i "archwilio creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i'r afael â phryderon am freugusrwydd presennol y cyfryngau ac ymosodiadau ar ei annibyniaeth." Pwysleisiodd yr Aelod nad oedd hyn i'w ddrysu â'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol.<br>• **Adolygiad o BBC Studios** – mae'r rhaglen waith hon yn barhaus ac yn berthnasol iawn i waith y BBC yng Nghymru<br>• **Diogelwch Ar-lein** – goblygiadau ar gyfer cyfansoddiad y Bwrdd Cynnwys yn y dyfodol. | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf gan Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>6. Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddaru ar weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y prif uchafbwyntiau a grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Crynodeb o natur cyfarfod diwethaf **Hyb y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer Cymru** fel y nodwyd yn flaenorol gan y Cadeirydd (beth yw gwasanaeth | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| rhagorol i gwsmeriaid a sut gall darparwyr cyfathrebiadau sicrhau bod gofynion gwasanaeth defnyddwyr yn cael eu bodloni'n effeithlon ac yn effeithiol). Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Chwefror 2022 a'r pwnc trafod fydd sut mae'r Post Brenhinol yn cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol a phrofiadau defnyddwyr.<br>• **Symud i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP)** - Mae'r Panel yn parhau i bryderu am effeithiau symud i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd ar ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd â gofynion cymorth penodol sy'n dibynnu ar wasanaethau fel defnyddwyr teleofal. Er mwyn diogelu'r defnyddwyr hyn, mae'r Panel yn pwysleisio i Ofcom a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod angen rheoli'r newid yn ofalus drwy godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd ar ddod.<br>• **Sesiynau trochi i ddefnyddwyr** – Yn ddiweddar cynhaliodd y Panel ddwy sesiwn drochi i ddefnyddwyr – cyfle i arsylwi a chlywed yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr am y mathau o faterion cyfathrebu maen nhw'n eu hwynebu. Mae'r pynciau trafod yn cynnwys y canlynol: -<br>1. Beth mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl gan eu darparwr – sut fyddai 'da' yn edrych? Sut gallai hyn fod yn sail i siarter defnyddwyr?<br>2. Pe bai gwasanaethau cyfathrebu yn dod yn wasanaeth hanfodol fel cyfleustodau eraill – beth fyddai defnyddwyr yn ei ddisgwyl?<br>3. Anghenion band eang a chysylltedd symudol defnyddwyr a'r hyn y maent yn ei dderbyn mewn gwirionedd.<br>• **Delio â chwynion** – nid yw'n ymddangos bod setiau data ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno i PCC ar yr un lefel â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. | |
| **Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br><br>7. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddaru a rannwyd yn flaenorol ac a oedd yn ymdrin â phynciau'n cynnwys y canlynol:<br><br>• **Polisi Darlledu** – yn unol â'r drafodaeth flaenorol ar y Cytundeb Cydweithio rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, nododd y Cyfarwyddwr arwyddocâd y newid yn y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i ddatganoli darlledu i Gymru.<br>• **Rygbi Rhyngwladol yr Hydref** - nodwyd bod Amazon Prime wedi sicrhau'r hawliau unigryw i ddarlledu'r gemau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cryn anfodlonrwydd wedi'i fynegi ynghylch y ffaith nad oedd y gemau ar gael i'w darlledu am ddim yn y naill iaith na'r llall, ond gallwn ddisgwyl i ddiddordeb Amazon yn y rhain a digwyddiadau chwaraeon mawr eraill barhau.<br>• **Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg** i achos posibl Ofcom o dorri rhwymedigaethau Safonau'r Gymraeg. Rydym yn dal i aros am benderfyniad y Comisiynydd a byddwn yn trafod y canlyniad gyda chydweithwyr perthnasol. Amlinellwyd rôl Tribiwnlys y Gymraeg.<br>• **Cyflymu Cymru** - Mae cynnydd yn cael ei wneud gydag ail gam rhaglen Cyflymu Cymru gyda 20,490 o adeiladau yn cael eu cysylltu â ffeibr llawn fel rhan o gontract Llywodraeth Cymru gyda BT i gyflwyno rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits i 39,000 o adeiladau erbyn mis Mehefin 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod cynlluniau ar gyfer prosiect dilynol yn seiliedig ar gyllid i raglen Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU sydd werth £5bn. | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar**<br><br>8. Fe wnaeth Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd roi diweddariad llafar yn y cyfarfod ac amlinellodd lwyddiant ymweliad diweddar y Bwrdd â Belfast. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| • Pwysleisiodd aelod bwysigrwydd sicrhau **amlygrwydd priodol ar gyfer cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus** gan nodi ei bod hi'n hanfodol sicrhau bod cynnwys priodol yn cael ei gynhyrchu yn y gwledydd yn ogystal â'r DU yn gyffredinol, a bod rhaid iddo fod ar gael yn gyffredinol ac yn hawdd dod o hyd iddo.<br>• Bil Diogelwch Ar-lein – wedi'i ystyried a'i drafod yn eang mewn cyfarfodydd. | |
| **Adroddiad – Polisi Cyhoeddus**<br><br>9. Croesawodd y Cadeirydd y tîm i'r cyfarfod. Yn ogystal â'r pynciau a grybwyllwyd eisoes, roedd yr uchafbwyntiau ychwanegol yn cynnwys y canlynol:<br><br>Bil Diogelwch Ar-lein – Rydym wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor craffu cyn y broses ddeddfu ac rydym yn disgwyl y bydd argymhellion y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar 10 Rhagfyr.<br><br>Bil Cyfryngau – Rydym yn disgwyl i bapur gwyn ar y Bil Cyfryngau gael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf<br><br>Bil diogelwch telegyfathrebiadau – wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Bydd y Codau a'r Offerynnau Statudol dilynol yn destun ymgynghoriad.<br><br>Gofynnodd aelod a oedd diweddariad ar Ffi'r Drwydded y BBC a'r setliad ariannu ar gyfer S4C, ac atebodd cydweithwyr gan nodi ein bod yn disgwyl cyhoeddiad yn fuan.<br><br>Fe wnaeth aelod arall nodi'r 'Cytundeb Cydweithio' diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, sy'n cynnwys ymrwymiad i 'archwilio'r broses o greu awdurdod cyfryngau a chyfathrebu cysgodol i Gymru', gan nodi mai dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru ymrwymo i hyn. | |
| **Adolygiad o BBC Studios**<br><br>10. Rhoddodd cydweithwyr ddiweddariad ar yr Adolygiad o BBC Studios.<br><br>Ers eu diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor, cyfarfu cydweithwyr â TAC ac Avanti, fel rhan o'u hymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid. Nododd y ddau bryderon am y broses gomisiynu a diffyg tryloywder.<br><br>Mae ein canfyddiadau cychwynnol yn dangos bod gennym rai materion ynghylch sut mae'r BBC yn rhoi rhai o'n rheolau ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon ynghylch gwerthu cynnwys eilaidd a thalu'r refeniw priodol yn ôl i'r Gwasanaeth Cyhoeddus. O'n hadolygiad o sampl fach o drafodion, nid ydym wedi gweld digon o dystiolaeth o gydymffurfio ac rydym yn bryderus nad oes prosesau digonol ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n Rheolau.<br>Rhannodd yr aelodau'r pryderon hyn hefyd ynghylch cydymffurfio â'r Rheolau, gan bwysleisio'n benodol yr angen am y canlynol:<br><br>• cyllid priodol yn mynd yn ôl i'r Gwasanaeth Cyhoeddus, yn hytrach na difidend;<br>• tryloywder ynghylch y broses gomisiynu ac unrhyw effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar drydydd partïon; a<br>• gwahanu llywodraethu'n briodol rhwng BBC Studios a'r Gwasanaeth Cyhoeddus<br><br>Fe wnaeth cydweithwyr atgoffa'r Aelodau fod Ofcom hefyd yn paratoi i adolygu Trwydded Weithredu'r BBC i weld a yw'n addas i'r diben ar gyfer cyfnod nesaf Siarter y BBC. | |
| **Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru** | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| 11. Ymunodd Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru â'r cyfarfod i roi trosolwg o strategaeth ddigidol Llywodraeth Cymru:<br><br>Esboniodd fod y strategaeth ddigidol wedi deillio o'r gwaith a wnaeth Lee Waters, Aelod o'r Senedd, fel cadeirydd panel arbenigol Llywodraeth Cymru ar sut y gallai digidol wella gwasanaethau cyhoeddus Cymru drwy ei adroddiad ar Newid y System<br><br>Roedd sawl elfen i'r strategaeth ddigidol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, gan gynnwys y canlynol:<br>• yr angen i uwchsgilio'r gweithlu<br>• pwysigrwydd cynhwysiad digidol, gan gynnwys mynediad at fand eang cyflym iawn<br>• sut i wella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru drwy wasanaethau cyhoeddus gwell<br><br>Mae'r gwaith yn cael ei oruchwylio gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, sy'n hyrwyddo ffyrdd digidol o weithio ar draws y sector cyhoeddus. Ynghyd â'r Prif Swyddog Digidol, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi penodi Prif Swyddog Digidol ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a bydd yn penodi un ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyn bo hir. Dywedodd y gellid ychwanegu safon ddigidol newydd at y dangosyddion cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ychwanegodd, er bod llawer o reoleiddio digidol wedi'i gadw i San Steffan, y bydd yn effeithio ar ddinasyddion Cymru, a nododd fod y tîm digidol a'r tîm addysg yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y Bil Diogelwch Ar-lein.<br><br>Nododd yr aelodau'r angen i sicrhau nad oedd neb yn cael ei adael ar ôl wrth inni symud i gymdeithas fwy digidol, yn enwedig o ran cael gafael ar ofal iechyd, a bod rhaid i ddinasyddion gael mynediad at ddyfais a chysylltedd.<br><br>Wrth ateb cwestiwn am newid yn yr hinsawdd a newidiadau digidol, nododd y Prif Swyddog Digidol bwysigrwydd newid yn yr hinsawdd i Lywodraeth Cymru a thynnodd sylw at deitl y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo ar gefnogi'r sector cyhoeddus i leihau ei ôl troed carbon drwy ddatrysiadau digidol.<br><br>O ran cenhadaeth y strategaeth ddigidol a lefel yr ymwybyddiaeth i Gymru gael ei gyrru'n ddigidol, dywedodd y Prif Swyddog Digidol ei bod yn bwysig dechrau mewn ysgolion, ac yna ymgynghori â'r gymdeithas ehangach ynghylch sut olwg ddylai fod ar wasanaethau cyhoeddus. | |
| **Adolygu'r broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol**<br><br>12. Roedd cydweithwyr o'r tîm polisi wedi dosbarthu cyfres o sleidiau er gwybodaeth ymlaen llaw.<br><br>Bydd Ofcom yn adolygu fframwaith rheoleiddio Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y Post Brenhinol yn 2022. Dyletswydd Ofcom yw sicrhau bod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn gynaliadwy; diogelu defnyddwyr er mwyn iddynt allu cael gafael ar wasanaeth syml a fforddiadwy; a chefnogi cystadleuaeth. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| Byddwn yn gofyn am wybodaeth gan randdeiliaid yn y gwanwyn a byddwn yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig erbyn diwedd y flwyddyn.<br><br>Mae tueddiadau diweddar yn y farchnad wedi gweld gostyngiad yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon tra bod nifer y parseli sy'n cael eu danfon yn cynyddu. Mae'r duedd hon wedi cyflymu yn ystod y pandemig, gyda'r Post Brenhinol yn gweld gostyngiad o draean yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon a chynnydd o draean yn nifer y parseli sy'n cael eu danfon.<br><br>Gofynnodd aelod a ddylid ymestyn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i gynnwys parseli mewn ardaloedd gwledig. Sicrhaodd cydweithwyr y Pwyllgor fod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn cynnwys parseli sy'n cael eu danfon gan y Post Brenhinol, gan ychwanegu ei fod yn danfon 7 biliwn o lythyrau a 4 biliwn o barseli y llynedd. Fodd bynnag, nid yw'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn ymestyn i ddanfoniadau 'manwerthu', dim ond nwyddau gan ddefnyddwyr, sy'n cynnwys anfon parseli o Swyddfa'r Post.<br><br>Nododd aelod arall bwysigrwydd llythyrau i ddefnyddwyr, er enghraifft wrth hysbysu pobl am apwyntiadau iechyd, a bod gwasanaeth da yn hanfodol. | |
| **13. Gweithio fel Peiriannydd Sbectrwm**<br><br>Fe wnaeth yr aelodau glywed yn uniongyrchol gan un o'n Peirianwyr Sbectrwm am y gwaith maen nhw'n ei wneud yng Nghymru. Eglurodd fod gan Ofcom bwerau i reoleiddio'r sbectrwm radio o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, gan gynnwys y gallu i ymchwilio i faterion yn ymwneud ag ymyriant. Esboniodd eu gwaith yn y maes hwn, a sut maent yn monitro'r defnydd o sbectrwm. Rhoddodd enghraifft o sut y gellir defnyddio'r un bandiau sbectrwm at ddibenion gwahanol ar yr amod nad ydynt yn achosi ymyriant fel y band 5.6ghz sy'n cael ei ddefnyddio gan y Swyddfa Dywydd i fesur glaw ac ar gyfer band eang gwledig. Yn fwyaf diweddar, roedd y tîm wedi canfod ymyriant i'r sbectrwm a achoswyd gan erial teledu domestig mewn atig tŷ yng Nghaerdydd a dysgl lloeren yn Ninbych-y-pysgod a oedd yn achosi ymyriant i system ffonau symudol. Yn ychwanegol, mae'r tîm hefyd yn monitro allyriadau gorsafoedd sylfaen rhwydwaith symudol, gan gynnwys y rheini o fastiau 5G, ac mae'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom. | |
| **14. Y wybodaeth ddiweddaraf - Teledu lleol - ar lafar**<br><br>Rhoddodd cydweithwyr y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae teledu lleol wedi gweithredu yn ystod y pandemig, yn ogystal ag amlinellu'r camau nesaf y mae'r sector yn eu hwynebu.<br><br>• Roedd yr her economaidd i deledu lleol wedi gwaethygu yn ystod y pandemig, gyda refeniw hysbysebion yn gostwng a rhai gorsafoedd yn gorfod cau eu stiwdios yn gyfan gwbl, gan fethu darparu cynnwys o bell. Fodd bynnag, roedd rhai yn gallu ymateb yn gyflym drwy greu cynnwys gwahanol tra bod eraill yn gallu rhoi staff ar ffyrlo. Rydym yn disgwyl i'r sector gyflwyno ei adroddiadau blynyddol ar gyfer 2021 yn gynnar y flwyddyn nesaf.<br>• Yn 2025, daw'r drwydded ar gyfer teledu lleol, sy'n cael ei dal gan Comux ar hyn o bryd, i ben ac nid oes unrhyw beth yn y statud i sicrhau dyfodol y sector ar ôl y dyddiad hwn. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y sector i gynllunio'n effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
| --- | --- |
| Cyfryngau a Chwaraeon yn adolygu opsiynau, ac mae Comux yn trafod gyda Freeview ac eraill i archwilio'r posibilrwydd o IPTV.<br>• Rydym wedi cael cais gan That's TV, sydd â gorsaf yn Abertawe, i addasu ei bolisi lleolrwydd. Sicrhaodd cydweithwyr y Pwyllgor na fyddai'r cais yn arwain at newid y cynnwys ar wasanaeth Abertawe ac y byddai'n cadw swyddfa gynhyrchu yn Abertawe.<br>• Fe wnaeth un Aelod dynnu sylw'r Pwyllgor at erthygl a oedd yn amlinellu'r posibilrwydd o fenter newydd yng Nghymru i greu mwy o newyddion lleol ar-lein drwy ddefnyddio gwasanaeth Teledu Lleol sy'n bodoli'n barod.<br>• Gofynnodd Aelod arall am dargedau ariannol teledu lleol. Dywedodd cydweithwyr y byddai'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol, ond mai eu prif gylch gwaith oedd cyflawni yn erbyn targed o gynnwys rhaglenni lleol, ac nid elw o reidrwydd. | |
| **15. Ymateb i Ymgynghoriadau:**<br><br>*Mae'r canlynol yn gyhoeddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor: -*<br>• **Ymgynghoriad: Adolygiad o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol teleffoni**<br>• **Cynllun Gwaith Ofcom 2022/23** (a gyhoeddwyd cyn y Nadolig)<br>• **Galw am Sbectrwm Symudol** (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr) | |
| **16. Galw am Sbectrwm Symudol:**<br><br>Roedd cydweithwyr o'r tîm polisi wedi dosbarthu cyfres o sleidiau er gwybodaeth ymlaen llaw.<br><br>Eglurodd cydweithwyr eu bod wrthi'n cynllunio'r defnydd o sbectrwm symudol yn y dyfodol hyd at 2035 ac roeddent yn gofyn am safbwyntiau cynnar rhanddeiliaid ynghylch y mathau o alw, y mathau o gyflymder a lleoliad daearyddol y sbectrwm symudol y gallai fod ei angen. Ychwanegodd cydweithwyr fod technolegau newydd yn debygol o ddod i'r amlwg rhwng nawr a 2035 ac y gellid defnyddio sbectrwm symudol ar y cyd â LoRaWAN, Systemau Lloeren a Mynediad Di-wifr Sefydlog.<br><br>Soniodd aelodau am y technolegau LoRaWAN sydd eisoes yn cael eu defnyddio yng Nglynllifon, yr angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru, a'r effaith y gallai dymuniad Llywodraeth Cymru i weld 30% o'r gweithlu'n gweithio gartref ei chael ar y galw am sbectrwm symudol yn y dyfodol.<br><br>Ychwanegodd cydweithwyr y byddai eu gwaith yn y maes hwn yn strategol ei natur yn hytrach na rhagnodi band penodol at ddibenion penodol. | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr**<br><br>15. **NODWYD** y cynnwys. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod**<br>16. **NODWYD** y cynnwys. | |
| **Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**<br>**Unrhyw fater arall -**<br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br>22 Mawrth 2022 | |
| | |
| | |
| | |
| | |

______________________________ **Dyddiad**: ______________________

Cadeirydd

[remove for published minutes]